



Cymdeithas Mannau Agored

Cyfoeth Tir Comin Cymru

Cynllun gweithredu Cymdeithas y Mannau Agored ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 – 2015

Cymdeithas y Mannau Agored (ein enw llawn ydyw'r Gymdeithas Gwarchod Tir Comin, Mannau Agored a Llwybrau Troed) yw corff cadwraethol hynaf Prydain. Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1865, ac fe ymgyrchwn dros greu a gwarchod tir comin, meysydd pentref a thref, manau agored a llwybrau cyhoeddus ym manau dinesig a chefn gwlad Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein ymgynghori ar bob cais i weithio ar dir comin, ac mae awdurdodau priffyrdd yn ein ymgynghori ar bob newid a wneir i'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus.

Mae wyth y cant o diroedd Cymru yn dir comin, ac mae'r tiroedd hyn yn hollbwysig oherwydd eu prydfwerthwch naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt, archaeoleg a'r cyfleoedd am adloniant anffurfiol arnynt. Nid oes unrhyw fath arall o dir yn cynnig ystod mor eang o fuddiannau cyhoeddus. Maent hefyd yn hynod o werthfawr i economi a chynnaladwyedd Cymru, gan ddarparu tiroedd pori (yn enwedig ar gyfer ffermwyr mynydd), ac maent yn atyniadau ymwelwyr sylweddol.

Galwn ar ymgeiswyr Etholiad Cynulliad Cymru 2011 i ymrwymo i'r pwyntiau gweithredu canlynol—

- 1 Darparu adnoddau i gynnal tir comin, meysydd trefi a phentrefi, manau agored, llwybrau cyhoeddus, cerdded, merlota a beicio, sydd yn hanfodol i arallgyfeirio economi Cymru.
- 2 Gweithredu'r Ddeddf Tir Comin 2006 heb oedi, gan ddarparu ar gyfer diweddarau'r cofrestrau, creu cynghorau tir comin a gloywi'r gyfraith parthed gwaith ar dir comin.

- 3 Defnyddio Glastir i sicrhau gwell rheolaeth o dir comin, gan gynnwys cyflogi bugeiliaid er mwyn osgoi ffensio.
- 4 Newid y gyfraith i greu dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithredu yn erbyn gwaith anghyfreithiol ar dir comin.
- 5 Cyfyngiad cyflymder o 20mya ar bob ffordd sydd yn croesi tir comin ac sydd heb ei ffensio, er mwyn diogelu stoc, y tirwedd a mynediad cyhoeddus.
- 6 Amserlen i brosesu ceisiadau ar gyfer meysydd trefi a phentrefi, er mwyn datrys ceisiadau haeddiannol yn gyflym (a gwrthod ceisiadau drygionus).
- 7 Creu gofyniad i dir comin a meysydd trefi a phentrefi sydd yn ffinio datblygiadau arfaethedig fod yn ystyriaeth cynllunio materol.
- 8 Creu hawl i apelio, a gofyniad i ddarparu tiroedd addas eraill, cyn defnyddio mannau agored cyhoeddus at ddibenion eraill.
- 9 Adnoddau digonol i greu llwybr cyhoeddus ar hyd arfordir Cymru erbyn 2012.
- 10 Cofnodi pob llwybr cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau eu bod ar agor ac yn hawdd i'w defnyddio a chynnwys pob priffordd cyhoeddus ar y map diffiniol ar gyfer hawliau tramwy.
- 11 Gorfodi amodau Glastir sydd yn gofyn i bob llwybr cyhoeddus ar y tiroedd hyn fod yn glir o unrhyw rwystrau.
- 12 Dileu'r ddarpariaeth gostus a brawychus o ddefnyddio llysoedd ynadon ar gyfer penderfynu ar newidiadau i lwybrau cyhoeddus (mae'n well defnyddio ymchwiliadau a gwrandawliadau cyhoeddus ar bob achlysur).

**Cymdeithas Mannau Agored, 25A Bell Street,
Henley-on-Thames, Oxon RG9 2BA
rhif ffôn 01491 573535, eost hq@oss.org.uk
www.oss.org.uk, rhif elusen gofrestredig 214753**